No.

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion y Cyfarfod Hybrid a Ailgynullwyd (o 22 Chwefror, 2024) a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, I.R. Buckley, C.A. Cave, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams and M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd A. Asbrey, J. Aviet, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) and R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol).

| **Enw'r Siaradwr** | **Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad** | **Rheswm dros Siarad** |
|---|---|---|
| B. Davies | 2020/01170/OUT - Land at Upper Cosmeston Farm, Lavernock Road, Penarth | Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd |
| D. Clarke | 2023/00032/FUL Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Gwrthwynebydd y cais neu ei gynrychiolydd |
| D. Clarke | 2023/00033/FUL Land to the North of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Gwrthwynebydd y cais neu ei gynrychiolydd |

Siaradodd y Cynghorydd K. Mahoney ynghylch Cais Rhif 2020/01170/OUT – Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Lavernock Road, Penarth, fel Aelod Ward lleol.

Siaradodd y Cynghorwyr E. Goodjohn ac E.J. Goodjohn, fel Cynghorwyr Bro Morgannwg, mewn perthynas â Chais Rhif 2023/00032/FUL – Cyfleuster Ynni Adnewyddadwy Biomas y Barri, David Davies Road, Y Barri.

## 965 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

Hefyd, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol ynghylch gohirio'r cyfarfod hwn yn flaenorol, ar 22 Chwefror 2024:

"Fel y bydd yr holl Aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod Cynllunio ar 22 Chwefror 2024 yn ymwybodol fe wnes i'r penderfyniad i ohirio'r cyfarfod hwnnw oherwydd anawsterau technegol sylweddol gyda'r system gyfarfod rithwir a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ail fater o dan Eitem 9 ar yr agenda, cais 2020/01170/OUT – Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Lavernock Road, Penarth. Roedd yr anawsterau technegol yn golygu nad oedd cyfran sylweddol o aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi mynychu'r cyfarfod o bell yn gallu gweld, clywed na chymryd rhan mewn agweddau ar y ddadl ar y mater. Gan nad oedd yr Aelodau hynny'n gallu bod yn rhan o'r ddadl lawn, heb unrhyw fai arnyn nhw, ni fyddent wedi gallu cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais ar y mater ar y diwrnod hwnnw.

Felly, yn dilyn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, penderfynwyd y byddwn yn ailgychwyn y mater Tir ym mater Fferm Cosmeston Uchaf o'r dechrau. Bydd pob siaradwr cyhoeddus ac Aelod lleol yn cael siarad â'r Pwyllgor eto er mwyn i bob cyfranogwr gael cyfle i gyflwyno eu barn a sicrhau bod yr eitem gyfan a'r holl ddadl ar yr eitem hon yn digwydd heddiw er mwyn gallu gwneud penderfyniad nad yw ar draul unrhyw blaid.

Oherwydd treigl amser rhwng gohirio ac ailgynnull y cyfarfod hwn, byddwn yn dechrau'r cyfarfod drwy ymddiheuro am absenoldeb, os oes rhai, ac unrhyw ddatganiadau buddiannau gan Aelodau mewn perthynas â'r eitemau hynny sydd i'w clywed heddiw."

966 DATGANIADAU BUDDIANT –

| **Cynghorydd** | **Rhif yr Eitem Agenda** | **Natur y Buddiant** |
|---|---|---|
| I.R. Buckley | 2020/01170/OUT – Land at Upper Cosmeston Farm, Lavernock Road, Penarth | Roedd y Cynghorydd eisoes wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol o Gyngor Tref Penarth. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| C.A. Cave | 2020/01170/OUT – Land at Upper Cosmeston Farm, Lavernock Road, Penarth | Teimlai'r Cynghorydd fod ei sylwadau ar y cofnodion blaenorol yn y cyfarfod gwreiddiol a ohiriwyd yn golygu na allai gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar yr eitem hon. Hefyd, nid oedd siaradwyr cyhoeddus, cynrychiolwyr ac Aelodau Pwyllgor a oedd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | bresennol yng nghyfarfod mis Chwefror o reidrwydd yn bresennol yn awr. Nid oedd yn eglur iawn ai ailddechrau ar ôl gohirio ym mis Chwefror, neu ailgychwyn oedd yr hyn a ddigwyddodd ym mis Mawrth. O ganlyniad i'r pryderon hyn a phryderon eraill, hysbysodd y pwyllgor y byddai'n parhau'n dawel ar y drafodaeth a'r cais hwn.<br><br>N.B. Ymatebwyd i'r pryderon hyn a rhoddwyd sylw iddynt gan y Cadeirydd a'r Swyddog Cyfreithiol, yn y cyfarfod ac yn natganiad y Cadeirydd (gweler isod). |
| I.A.N. Perry | 2020/01170/OUT – Land at Upper Cosmeston Farm, Lavernock Road, Penarth | Ni phleidleisiodd y Cynghorydd oherwydd ei fod yn teimlo nad oedd materion yn ymwneud â'r penderfyniad cynllunio a godwyd yn y cyfarfod ym mis Chwefror yn cael eu hailadrodd yn y cyfarfod ym mis Mawrth ac o ganlyniad roedd rhai aelodau a bleidleisiodd ym mis Mawrth nad oedd ganddynt yr holl wybodaeth gan eu bod. ddim yn bresennol ym mis Chwefror. Nid oedd yn eglur iawn ai ailddechrau ar ôl gohirio ym mis Chwefror, neu ailgychwyn oedd yr hyn a ddigwyddodd ym mis Mawrth. O ganlyniad i faterion a godwyd ym mis Chwefror nad oeddent yn cael eu hailadrodd ym mis Mawrth, dywedodd wrth y pwyllgor na fyddai'n pleidleisio oherwydd nad oedd cyfranogwyr newydd wedi clywed yr holl ddadl.<br><br>N.B. Ymatebwyd i'r pryderon hyn a rhoddwyd sylw iddynt |

| | | |
|---|---|---|
| | | gan y Cadeirydd, yn y cyfarfod ac yn ei ddatganiad (gweler isod). |
| N.C. Thomas | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| S.D. Perkes | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| I. Buckley | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| C.A. Cave | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| P. Drake | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| A.M. Ernest | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | Facility, David Davies Road, Barry | cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| N.P. Hodges | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| Dr. I.J. Johnson | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry and 2023/00033/FUL | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| H.M. Payne | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry and 2023/00033/FUL | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| E. Williams | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| M.R. Wilson | 2023/00032/FUL – Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| N.C. Thomas | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| S.D. Perkes | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| I. Buckley | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| C.A. Cave | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| P. Drake | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| A.M. Ernest | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| N.P. Hodges | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| Dr. I.J. Johnson | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| H.M. Payne | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| E. Williams | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| M.R. Wilson | 2023/00033/FUL – Land to the north of Barry Biomass Renewable Energy Facility, David Davies Road, Barry | Roedd y Cynghorydd wedi ystyried y cais mewn cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd y byddent yn ystyried y mater o'r newydd ac felly arhosodd |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |

967 CEISIAD CYNLLUNIO (PDC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiad a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

**2020/01170/OUT** Derbyniwyd ar 14 Hydref 2020
(P. 1)
**YMGEISYDD**:Is-adran Tir Llywodraeth Cymru, Grŵp Ysgrifennydd Parhaol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
**ASIANT:**Ms Catherine Blyth Uned 9, Oak Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

**Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Lavernock Road, Penarth**

Cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl, ysgol gynradd, gofod cymunedol a man agored cyhoeddus gyda'r holl faterion wedi'u cadw heblaw mynediad.

Galwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar gyfer y Cais, yn seiliedig ar yr argymhellion yn yr adroddiad, gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:

| **Aelodau** | **Canys** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| G. Bruce | | | |
| I.R. Buckley | √ | | |
| C.A. Cave | | | |
| C.E.A. Champion | | √ | |
| C.M. Cowpe | √ | | |
| P. Drake | √ | | |
| A.M. Ernest | | √ | |
| W. Gilligan | √ | | |
| N.P. Hodges | √ | | |
| Dr. I.J. Johnson | √ | | |
| H.M. Payne | √ | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.D. Perkes | √ | | |
| I.A.N. Perry | | | |
| C. Stallard | √ | | |
| N.C. Thomas | √ | | |
| E. Williams | √ | | |
| M.R. Wilson | √ | | |
| **CYFANSWM** | **12** | **2** | |

PENDERFYNWYD – darparu’r canlynol (yn seiliedig ar 576 annedd), ar yr amod bod yr ymgeisydd yn dod i gytundeb Adran 106:

- Caffael bod 40% (hyd at 231) o'r anheddau a adeiladir ar y safle yn unol â'r caniatâd cynllunio yn cael eu hadeiladu ac wedi hynny yn cael eu cynnal fel unedau tai fforddiadwy am byth.
- Talu cyfraniad o **£1,324,800** tuag at welliannau trafnidiaeth cynaliadwy.
- Talu cyfraniad ariannol o **£6,476,088** tuag at y gofynion addysg sy'n deillio o’r datblygiad, yn ogystal â throsglwyddo’r safle ysgol 1ha i'r Cyngor.
- Darparu man agored addas o fewn cyfyngiadau'r safle (gan gynnwys 1 ardal offer chwarae cymdogaeth, 3 LEAP a 4 Cynllun Ardal Leol.
- Talu 1% o gyllideb y prosiect tuag at gelf gyhoeddus.
- Cyfraniad monitro clogwyni o **£59,150**
- Darparu cyfleusterau cymunedol o tua 0.1-0.2 hectar o fewn y datblygiad

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2023/00032/FUL** Derbyniwyd ar 27 Ionawr 2023
(P. 79)
**YMGEISYDD**:Biomass UK No.2 Limited -, -,
**ASIANT:**Mr Philip Murphy 21 Soho Square, Llundain, W1D 3QP

**Cyfleuster Ynni Adnewyddadwy Biomas y Barri, David Davies Road, Y Barri**

Caniatâd cynllunio llawn ôl-weithredol ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys gwaith ynni adnewyddadwy tanwydd pren a strwythurau cysylltiedig heb gydymffurfio ag Amod 5 (Lluniadau) sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio 2015/00031/OUT.

Galwyd pleidlais wedi’i chofnodi ar y Cais, yn seiliedig ar a oedd yr Aelodau o blaid neu yn erbyn Gwrthod y Cais, gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:

| Aelodau | Canys | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|---|
| G. Bruce | | | |
| I.R. Buckley | √ | | |
| C.A. Cave | | | √ |
| C.E.A. Champion | √ | | |
| C.M. Cowpe | √ | | |
| P. Drake | √ | | |
| A.M. Ernest | | | |
| W. Gilligan | √ | | |
| N.P. Hodges | √ | | |
| Dr. I.J. Johnson | √ | | |
| H.M. Payne | √ | | |
| S.D. Perkes | √ | | |
| I.A.N. Perry | √ | | |
| C. Stallard | √ | | |
| N.C. Thomas | | | √ |
| E. Williams | √ | | |
| M.R. Wilson | √ | | |
| **CYFANSWM** | **13** | | **2** |

GWRTHODWYD - Yn amodol ar y rhesymau canlynol:

(1) Mae ychwanegu’r strwythurau ategol anawdurdodedig, mân newidiadau, a newidiadau’n gysylltiedig â’r cynllun gan gynnwys: Adeilad Derbyn Tanwydd sy’n Gwyro, Tŷ Cywasgydd sy’n Gwyro, Seilo wrea, cludydd gollwng ar oledd wedi'i osod yn allanol, dŵr sgrinio ac offer echdynnu llwch, generadur diesel argyfwng a chiosg tân, tŷ pwmpio a thanc dŵr tân, newid i led y corn ac ehangu'r gwanhadur sŵn sydd wedi’i leoli ar waelod y corn simnai; wedi effeithio'n andwyol ar ymddangosiad y datblygiad dros yr hyn a gymeradwywyd yn 2015 a bydd yn niweidio amwynder eiddo preswyl cyfagos wrth y Glannau ac ar Dock View Road'.

Mae'r cynnig felly yn cael ei ystyried yn groes i Bolisïau MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac MD5 (Datblygiad o fewn Ffiniau Aneddiadau) Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bro Morgannwg.

(2) Mae'r ymgeisydd wedi methu â dangos na fydd effeithiau amgylcheddol niweidiol oherwydd bod yr AEG yn methu ag asesu'r effeithiau ynghylch gwastraff yn ddigonol ac yn llawn; yn enwedig gan nad oes pennod benodol yn ymdrin â'r mater allweddol hwn. Felly, mae'r cynnig yn groes i bolisïau MD 2 (Dylunio Datblygiadau Newydd), MD 7 (Diogelu'r Amgylchedd) a MD 20 (Asesu Cynigion Rheoli Gwastraff) Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bro Morgannwg.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2023/00033/FUL** Derbyniwyd ar 24 Ionawr 2023
(P. 130)
**YMGEISYDD**:Biomass UK No. 2 Ltd., dan ofal yr Asiant, -, -
**ASIANT:**Mr Philip Murphy, 21, Soho Square, Llundain, W1D 3QP

**Tir i'r Gogledd o Gyfleuster Ynni Adnewyddadwy Biomas y Barri, David Davies Road, Y Barri**

Caniatâd cynllunio ôl-weithredol ar gyfer storfa allanol, man troi cerbydau ac arhosfan cerbydau, a ffens perimedr i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith ynni adnewyddadwy cyfagos.

Galwyd pleidlais wedi’i chofnodi ar y Cais, yn seiliedig ar a oedd yr Aelodau o blaid neu yn erbyn Gwrthod y Cais, gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:

| **Aelodau** | **Canys** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| G. Bruce | √ | | |
| I.R. Buckley | √ | | |
| C.A. Cave | √ | | |
| C.E.A. Champion | √ | | |
| C.M. Cowpe | √ | | |
| P. Drake | √ | | |
| A.M. Ernest | | | |
| W. Gilligan | √ | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| N.P. Hodges | √ | | |
| Dr. I.J. Johnson | √ | | |
| H.M. Payne | √ | | |
| S.D. Perkes | √ | | |
| I.A.N. Perry | √ | | |
| C. Stallard | √ | | |
| N.C. Thomas | √ | | |
| E. Williams | | | |
| M.R. Wilson | √ | | |
| **CYFANSWM** | **15** | | |

GWRTHODWYD - Yn amodol ar y rhesymau canlynol:

1. Mae'r cynnig yn effeithio ar ran allweddol a gweithredol o'r datblygiad ehangach, o ran bod y strwythurau ategol anawdurdodedig, mân newidiadau, a newidiadau'n gysylltiedig â'r cynllun gan gynnwys:- Adeilad Derbyn Tanwydd sy'n Gwyro, Tŷ Cywasgydd sy'n Gwyro, Seilo wrea, cludydd gollwng ar oledd wedi'i osod yn allanol, dŵr sgrinio ac offer echdynnu llwch, generadur diesel argyfwng a chiosg tân, tŷ pwmpio a thanc dŵr tân, newid i led y corn ac ehangu'r gwanhadur sŵn sydd wedi'i leoli ar waelod y corn simnai; wedi effeithio'n andwyol ar ymddangosiad y datblygiad dros yr hyn a gymeradwywyd yn 2015 a bydd yn niweidio amwynder eiddo preswyl cyfagos wrth y Glannau ac ar Dock View Road. Mae'r cynnig felly yn cael ei ystyried yn groes i Bolisïau MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac MD5 (Datblygiad o fewn Ffiniau Aneddiadau) Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bro Morgannwg.

2. Mae'r cynnig yn effeithio ar ran annatod a gweithredol o'r datblygiad ehangach, nad yw'n cael ei gefnogi gan wybodaeth ddigonol i ddangos na fyddai effeithiau amgylcheddol niweidiol (oherwydd bod yr AEG yn methu ag asesu'n llawn yr effeithiau o ran gwastraff, yn enwedig gan nad oes pennod benodol yn ymdrin â'r mater allweddol hwn). Felly, mae'r cynnig yn groes i bolisïau MD 2 (Dylunio Datblygiadau Newydd), MD 7 (Diogelu'r Amgylchedd) a MD 20 (Asesu Cynigion Rheoli Gwastraff) Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bro Morgannwg.

Y rheswm dros y penderfyniadau

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2023/00895/FUL** Derbyniwyd ar 17 Ionawr 2024
(T.156)
**YMGEISYDD**:Mr Huw Llewellyn Great House Farm, Pen-llin, Y Bont-faen, CF71 7RQ
**ASIANT:**Ms Bethan Evans Uned 9, Oak Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

**Great House Farm, Pen-llin**

Newid defnydd arfaethedig o ddefnydd amaethyddol i lety glampio i ymwelwyr yn cynnwys 3 iwrt, unedau cegin ar wahân a throi ysgubor bresennol yn floc cawodydd a storfa fferm.

Galwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar gyfer y Cais, yn seiliedig ar yr argymhellion yn yr adroddiad, gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:

| **Members** | **For** | **Against** | **Abstain** |
|---|---|---|---|
| G. Bruce | √ | | |
| I.R. Buckley | √ | | |
| C.A. Cave | √ | | |
| C.E.A. Champion | | | √ |
| C.M. Cowpe | √ | | |
| P. Drake | √ | | |
| A.M. Ernest | | | |
| W. Gilligan | √ | | |
| N.P. Hodges | √ | | |
| Dr. I.J. Johnson | | | |
| H.M. Payne | √ | | |
| S.D. Perkes | √ | | |
| I.A.N. Perry | √ | | |
| C. Stallard | √ | | |
| N.C. Thomas | √ | | |
| E. Williams | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| M.R. Wilson | √ | | |
| **TOTAL** | **13** | | 1 |

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.